| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Y Cyng. Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gary Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Penodi Cyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am benodiad Cyfarwyddwr Bwrdd Cyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (y Bwrdd).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae swydd wag ar y Bwrdd ac mae'n ofynnol i'r Cyngor benodi Cyfarwyddwr newydd i lenwi'r swydd wag honno.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd a'r Economi i fod yn Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ('DLL').

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 30 Mai 2019 fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo creu cwmni masnachu Awdurdod Lleol nid er elw cyfyngedig drwy warant fel model darparu amgen ar gyfer darparu

gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor. Gelwir y cwmni hwn yn Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL).

4.2. Y Cyngor yw unig berchennog ac aelod o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. Mae Erthyglau Cymdeithas y Cwmni yn nodi bod penodiad Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd yn fater i'r Cyngor benderfynu arno.

4.3. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd) yn gyfrifol am redeg y cwmni. Mae cyfansoddiad y Bwrdd ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Rheolwr Gyfarwyddwr - Jamie Groves,

Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, Cyng Rhys Thomas

Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyng Gill German

Cyfarwyddwr Annibynnol x 2 (Paul McGrady a Sian Morris-Jones),

Aelod Etholedig heb fod yn Aelod o'r Cabinet - Cyng Diane King,

Aelod o'r Tîm Arwain Strategol - swydd wag

4.4. Mae'r swydd ar y Bwrdd i gael ei llenwi gan aelod o'r Tîm Arwain Strategol yn wag ar hyn o bryd. Mae aelodau'r Tîm Arwain Strategol wedi cael eu canfasio o ran eu diddordeb mewn derbyn y rôl hon a chytunwyd i enwebu Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Amgylchedd a'r Economi ar gyfer y rôl.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag aelodau o'r Tîm Arwain Strategol sydd wedi enwebu Tony Ward. Ymgynghorwyd gyda DLL hefyd ac maent wedi cadarnhau eu cefnogaeth i'r penodiad arfaethedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes yna unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu cynnal i helpu i leihau'r risg wrth symud ymlaen. Cefnogir yr adroddiad yn llwyr.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae yna risg na fydd swyddi gwag ar y Bwrdd yn darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol i DLL.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2 Erthygl 13 Erthyglau Cymdeithas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.